Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 14.12.20 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cod ymarfer ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** |
|---|
| Mae Estyn yn croesawu'r cynigion ac yn cydnabod bod yr ymgynghoriad wedi'i anelu'n bennaf at ofal cymdeithasol ac iechyd. Fodd bynnag, nid yw'r dogfennau ymgynghori yn adlewyrchu rôl cydweithwyr mewn addysg yn ddigon da. Byddai'r cod yn cael ei gryfhau ymhellach trwy wneud cyfeiriadau cliriach, lle bo'n briodol, at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a rôl ymarferwyr addysg.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu rheoliad a chodau ymarfer drafft i gefnogi gweithredu cynllun newydd Trefniadau Diogelu Rhyddid. Byddai'n fuddiol ystyried p'un a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i brofi'r cod hwn yn y dyfodol mewn perthynas â'r gwaith ar y Trefniadau Diogelu Rhyddid. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

| **C1 – Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o awtistiaeth a ddefnyddir o fewn y Cod a'r arweiniad hwn?** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r diffiniad arfaethedig yn gywir ar gyfer darparwyr gwasanaeth, ac yn dderbyniol i bobl awtistig?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno x | Tueddu i Gytuno | Tueddu i Anghytuno | Anghytuno |
| **Esboniwch:**<br><br>Ar sail y rhesymeg yn y dogfennau ymgynghori, mae'r newid mewn diffiniadau a therminoleg yn briodol, ac wedi'i seilio ar farn pobl awtistig. Mae'n ymddangos bod y defnydd o'r term cyflwr y sbectrwm awtistig yn fwy priodol ac yn dangos llai o stigma nag anhwylder y sbectrwm awtistig.<br><br>Mae'n her i'r holl wasanaethau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan y cod hwn ddeall y diffiniad a defnyddio'r derminoleg yn gyson. | | | |

| **C2 – Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cod ganolbwyntio ar wasanaethau awtistiaeth neu y gellid ei ehangu i gwmpasu cyflyrau niwroddatblygiadol?** | | |
|---|---|---|
| **Awtistiaeth yn unig** | **Yr holl gyflyrau niwroddatblygiadol**<br>x | **Dim barn** |

**Esboniwch:**

Mae'r dogfennau ymgynghori yn cyfeirio'n gyffredinol at gydafiachedd. Ar yr amod fod cod yn disgrifio dyletswyddau ar gyrff yn glir mewn perthynas â phobl awtistig ond nid yw'n cwmpasu cyflyrau niwroddatblygiadol sy'n cydfodoli, gallai arwain at ystyried bod cyflyrau sy'n cydfodoli yn llai pwysig.

| **C3 – ADRAN 1: Trefniadau ar gyfer Asesu a Diagnosis.** | | | |
|---|---|---|---|
| **C3a – A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon o'r Cod yn gywir ar gyfer darparwyr gwasanaeth a phobl awtistig, fel ei gilydd?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [x] | Tueddu i Gytuno [ ] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |

**Esboniwch:**

Hefyd, mae'r cod drafft yn defnyddio'r term y mae ymarferwyr yn ei ffafrio yn hytrach na chyfeirio at weithwyr proffesiynol unigol. Mae'r cod wedi'i dargedu at ymarferwyr yn bennaf yn y sector gofal cymdeithasol ac iechyd.

Mae'r cod drafft yn glir, lle mae gan blant ac oedolion awtistig anghenion cymorth addysgol ychwanegol, y bydd Deddf arfaethedig Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r cod anghenion dysgu ychwanegol cysylltiedig yn berthnasol.

Er gwaethaf y dyletswyddau sy'n deillio o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r cod anghenion dysgu ychwanegol, mae'n bwysig fod unrhyw strategaeth neu weithredoedd yn ystyried barn gweithwyr addysg proffesiynol ac yn cynnwys y gymuned addysg mewn datblygu'r strategaeth, ac unrhyw gamau gweithredu dilynol. Er enghraifft, dylai strategaeth neu gamau gweithredu ganolbwyntio ar wella gallu ymarferwyr i gefnogi'r broses nodi, darparu gwybodaeth am wasanaethau atgyfeirio ac asesu a chefnogi plant ac oedolion awtistig.

Mae nifer y plant awtistig o oedran ysgol statudol wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd, mae gan ychydig llai na 9,000 o blant awtistiaeth, a nodwyd bod gan ryw un o bob 5 o'r rhain anghenion mwy cymhleth ac yn cael eu cefnogi, mewn ysgolion, gan ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Yn ein hadroddiad thematig, Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd – adroddiad arfer dda [Ionawr 2020], fe wnaethom nodi pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol fel rhan hanfodol o gefnogaeth yr ysgolion o ddydd i ddydd ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r adroddiad yn amlygu effaith gadarnhaol cwblhau dogfennau atgyfeirio yn brydlon

| |
|---|
| ac yn effeithiol, er bod ystod yr asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol y mae ysgolion yn gweithio gyda nhw yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, caiff y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr asiantaethau hyn eu cydlynu'n effeithiol iawn i sicrhau bod staff ysgol yn meddu ar y ddealltwriaeth, y medrau a'r strategaethau i gefnogi anghenion cymhleth disgyblion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C3b – A yw'r arweiniad yn rhoi digon o eglurder a gwybodaeth ar gyfer yr adran hon?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:**<br><br>Mae'n glir fod rhaid cynnig cefnogaeth, yn dilyn diagnosis, o fewn 6 wythnos, ond ni ddarperir unrhyw amserlenni eraill. Mae'r diffyg hwn o ran amserlenni clir yn groes i'r dyletswyddau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Byddai'n fuddiol cynnwys y dyletswyddau iechyd yn unol â'r amserlenni hynny a nodir yn y ddeddfwriaeth ADY.<br><br>Cyfeirir at safonau amser aros. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys y rhain yn y dogfennau cyhoeddedig terfynol.<br><br>Rydym yn croesawu'r wybodaeth yn yr arweiniad i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn yr ystâd ddiogel yn gallu cael asesiadau, diagnosis a chymorth. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C4 - ADRAN 2: Trefniadau ar gyfer Manteisio ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | | | |
| **C4a – A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn gywir ar gyfer darparwyr gwasanaeth a phobl awtistig, fel ei gilydd?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:**<br><br>Yn gyffredinol, mae darparu gwasanaethau ataliol ac eiriolaeth yn gydnaws ag egwyddorion a gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae angen i gyrff statudol ac anstatudol fod yn ymwybodol, o | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| leiaf, o wasanaethau sy'n cael eu darparu, a'u darparu mewn modd cydlynus ac unedig, yn ddelfrydol. | | | |
| **C4b – A yw'r arweiniad yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth ar gyfer yr adran hon?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:** Mae angen arweiniad pellach i gynorthwyo arweinwyr mewn ysgolion, UCDau a cholegau i wneud yr holl addasiadau rhesymol ar gyfer pobl awtistig. Bydd yn heriol iddyn nhw sicrhau bod staff sy'n ymwneud â diwallu anghenion plant awtistig yn meddu ar ddealltwriaeth a phrofiad priodol o awtistiaeth. | | | |
| **C5 – ADRAN 3: Trefniadau ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant ar Awtistiaeth** | | | |
| **C5a – A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn gywir ar gyfer darparwyr gwasanaeth a phobl awtistig, fel ei gilydd?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:** Mae angen arweiniad pellach i sicrhau bod ysgolion a cholegau yn deall sut i fanteisio ar y cyfleoedd dysgu proffesiynol angenrheidiol i sicrhau bod ganddynt unigolyn penodol sydd â'r lefel gywir o hyfforddiant i ddiwallu anghenion pobl awtistig. | | | |
| **C5b – A yw'r arweiniad yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth ar gyfer yr adran hon?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:**<br><br>Gellir cryfhau'r adran hon trwy gyfeirio'n eglur at wasanaethau addysg, gan gynnwys ysgolion ac UCDau, lle bo'n briodol. Byddai hyn yn arbennig o fuddiol mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth a dysgu a datblygu'r gweithlu.<br><br>Yn ein hadroddiad Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd – adroddiad arfer dda [Ionawr 2020], nodom fod y rhan fwyaf o ysgolion, dros | | | |

| |
|---|
| gyfnod, yn gwneud defnydd gofalus o'r cydweithio agos â staff arbenigol i wella medrau ac ymestyn dysgu proffesiynol eu staff eu hunain. Er mwyn i'r arweiniad gael ei ddeall a'i weithredu'n effeithiol, credwn fod codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar awtistiaeth yn hanfodol i ddatblygu gallu timau cymorth dysgu i weinyddu rhaglenni wedi'u cynllunio gan staff arbenigol. Adran 7. Sefydliadau Addysgol, tra'n cyfeirio at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru] 2018, dylai alinio'n agos â'r cod anghenion dysgu ychwanegol drafft. |

| **C6 – ADRAN 4: Trefniadau ar gyfer Cynllunio Gwasanaethau Awtistiaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **C6a – A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn gywir ar gyfer darparwyr gwasanaeth a phobl awtistig, fel ei gilydd?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [x] | Tueddu i Gytuno [ ] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:**<br>Bydd asesiadau yn helpu awdurdodau lleol i ddeall anghenion plant awtistig yn well, a phenderfynu beth yw'r ffordd orau o'u cefnogi trwy gynllun cymorth. Mae'n bwysig adolygu'r cynllun gofal yn rheolaidd i wirio a yw'n gweithio ar gyfer pob unigolyn. Mae gwneud yn siŵr fod plant awtistig, eu rhieni a phobl broffesiynol yn cymryd rhan mewn hyfforddiant awtistiaeth yn allweddol wrth gynllunio'r gwasanaethau sydd eu hangen.<br><br>Mae gweithio amlasiantaethol effeithiol yn allweddol i sicrhau bod byrddau partneriaethau rhanbarthol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio cymorth. | | | |
| **C6b – A yw'r arweiniad yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth ar gyfer yr adran hon?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:**<br><br>Yn gyffredinol, mae'r bwriadau a nodwyd yn briodol. Byddai'n ddefnyddiol ei gwneud yn glir fod asesiadau o'r boblogaeth yn cynnwys plant, a bod angen i fyrddau partneriaeth rhanbarthol, trwy weithio gydag awdurdodau lleol, ddefnyddio data sydd ar gael i adolygu darpariaeth addysg arbennig / darpariaeth ddysgu ychwanegol yn gyson. | | | |

| **C7 – ADRAN 4: Trefniadau ar gyfer Monitro Gwasanaethau Awtistiaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **C7a – A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn gywir ar gyfer darparwyr gwasanaeth a phobl awtistig, fel ei gilydd?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:**<br>Mae'r asesiadau arfaethedig o'r boblogaeth yn nodi'n glir y graddau y mae yna bobl awtistig sydd angen cyngor, gofal neu gymorth, a gofalwyr pobl awtistig sydd angen cymorth yn eu rhanbarth. Gellid cryfhau'r angen i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'u partneriaid bwrdd partneriaeth weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ymateb i asesiadau'r boblogaeth a gweithredu'r cynlluniau ardal. | | | |
| **C7b – A yw'r arweiniad yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth ar gyfer yr adran hon?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:**<br><br>Yn gyffredinol, mae'r bwriadau a nodwyd yn briodol. Byddai'n ddefnyddiol ei gwneud yn glir fod asesiadau o'r boblogaeth yn cynnwys plant, a bod angen i fyrddau partneriaeth rhanbarthol, trwy weithio gydag awdurdodau lleol, ddefnyddio data sydd ar gael i adolygu darpariaeth addysg arbennig / darpariaeth ddysgu ychwanegol yn gyson. | | | |

| **C8 – ADRAN 4: Trefniadau ar gyfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** | | | |
|---|---|---|---|
| **C8a - A yw'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon yn gywir ar gyfer darparwyr gwasanaeth a phobl awtistig, fel ei gilydd?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:**<br>Rydym ni'n cytuno bod rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sicrhau bod pobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn datblygu a monitro gwasanaethau awtistiaeth. Gellid cryfhau'r arweiniad trwy ddarparu enghreifftiau o sut y gellir cyflawni hyn. | | | |

| **C8b - A yw'r arweiniad yn darparu digon o eglurder a gwybodaeth ar gyfer yr adran hon?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
|---|---|---|---|
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| **Esboniwch:**<br><br>Rhaid i'r hyrwyddwr awtistiaeth weithio'n agos â chydweithwyr mewn addysg a'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig ar gyfer addysg, sef swydd a grëwyd yn ddiweddar. Gellid cryfhau'r arweiniad trwy lywio'r profiadau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol o hyrwyddwr awtistiaeth. | | | |

| **C9 – GEIRFA: Ydych chi'n cytuno â'r diffiniadau yn yr eirfa?** | | | |
|---|---|---|---|
| **A yw'r diffiniadau arfaethedig yn gywir ar gyfer darparwyr gwasanaeth a phobl awtistig, fel ei gilydd?** Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, esboniwch yn y blwch isod. | | | |
| Cytuno [ ] | Tueddu i Gytuno [x] | Tueddu i Anghytuno [ ] | Anghytuno [ ] |
| Mae'r term 'amlddisgyblaethol' yn rhy gyfyng ac nid yw'n cynnwys gweithwyr addysg proffesiynol sy'n darparu gwasanaeth gwerthfawr i blant a phobl ifanc awtistig a'u teuluoedd bob dydd. | | | |

| **CWESTIYNAU ERAILL** |
|---|
| **C10 – Hoffai Llywodraeth Cymru ddeall p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, sef: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.** |
| **C10.1 – Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai, a pham?** |
| **Esboniwch:** |
| **C10.2 – Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai, a pham?** |
| **Esboniwch:** |

| |
|---|
| **C11 – Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**<br>i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a<br>ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **C11.1 – Beth fyddai effeithiau hyn, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?** |
| **Esboniwch:** |
| **C12 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y cynigion hyn er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau anffafriol ar gyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** |
| **Esboniwch:**<br><br>Mae hyn yn fater pwysig. Dylai pawb sy'n awtistig allu cyfathrebu trwy eu ffurf gyntaf a mwyaf cyfforddus o gyfathrebu, boed hynny yn Gymraeg neu drwy gyfrwng iaith arwyddion, os oes yn well ganddynt. Fodd bynnag, nid yw'r arweiniad yn sicrhau y dylai cymorth ar gyfer pobl awtistig fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, os bydd angen, a dylai'r holl bobl broffesiynol gymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno. |
| **Fe wnaethom ofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym ni amdanynt.** |
| Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu rheoliad a chodau ymarfer drafft hefyd i gefnogi gweithredu cynllun newydd Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid. Byddai'n fuddiol ystyried p'un a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i brofi'r cod hwn yn y dyfodol mewn perthynas â'r gwaith ar Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid. |

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma**:

☐